Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Y Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) 2014 – 2020:

## Adroddiad Blynyddol 2022 – Crynodeb

# 1. Trosolwg

**Rhaglen fuddsoddi 7 mlynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ('UE') trwy Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig ('EAFRD') yw Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (WGRC-RDP) 2014-2020.**

Cafodd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru ei mabwysiadu ar 26 Mai 2015 ac mae wedi'i diwygio bum gwaith. Cafodd y diweddaraf ei fabwysiadu gan yr CE ar 26 Ionawr 2022. Rhoddwyd blaenoriaeth yn y cynnig i estyn cyfres mesurau Amaeth-amgylcheddol Glastir ac estyn contract Cyswllt Ffermio.

Mae'r Rhaglen Gymru gyfan hon yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau sydd â'r bwriad o wella cynaliadwyedd a chadernid amgylchedd naturiol, sector tir, busnesau bwyd a chymunedau gwledig Cymru.

Cytunwyd ar gyllideb o hyd at €977.31 miliwn ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae hyn yn cynnwys rhyw €651.6 miliwn o gyllid yr UE a €325.7 miliwn o arian Llywodraeth Cymru ei hun.

Cyflwynir mwyafrif y gweithgareddau a gefnogir trwy'r Rhaglen ar ffurf 'cynlluniau' y gellir eu grwpio'n fras fel a ganlyn: -

| | Cyllideb UE | Cyfanswm Cyllideb | Gwariant UE | Cyfanswm Gwariant |
|---|---|---|---|---|
| **Cynlluniau Cyfalaf Dynol a Chymdeithasol** (gan gynnwys cymorth Cyswllt Ffermio) | € 142.314 | €247.08 | € 112.62 | € 190.24 |
| **Cynlluniau Buddsoddi** (fel y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy) | € 83.589 | € 133.92 | € 67.25 | € 105.54 |
| **Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol-Hinsawdd** (Glastir) | € 356.87 | € 479.21 | € 305.69 | € 392.52 |
| **Cynlluniau Datblygu Lleol** (gan gynnwys LEADER) | € 46..17 | € 74.35 | 40.46 | € 64.87 |
| **Gweithgarwch Arall** (fel Rhwydwaith Gwledig Cymru) | € 22.66 | € 42.75 | € 18.24 | € 34.41 |
| Y Cyfanswm sydd ar gael o dan y Rhaglen | **€ 651.59** | **€ 977.31** | **€ 544.26** | **€787.59** |

Dyrennir cyllideb ddangosol i bob cynllun a gynhelir o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig. Pennir targedau ar gyfer yr hyn y disgwylir ei gyflawni. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r targedau hyn drwy gydol y flwyddyn. Nodir cynnydd tuag at y targedau yn yr adroddiad blynyddol a gaiff ei anfon at y Comisiwn Ewropeaidd (CE). Mae'r gwaith monitro hwn yn sicrhau y caiff yr arian ei wario yn y modd a fwriadwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae copi o'r adroddiadau hyn ar gael yma

# 2. Gwerthuso

**Mae gwerthuso'n rhan allweddol o'r Rhaglen er mwyn helpu i asesu effeithiolrwydd y Rhaglen a nodi meysydd y gellir eu gwella. Mae nifer o ddogfennau canllaw wedi'u cyhoeddi i helpu yn hyn o beth.**

Comisiynodd y tîm Strategaeth werthusiad canol tymor o'r **Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Chynghori, sef Cyswllt Ffermio** yn gynnar yn 2018. Cynhwysai ddau gymal o waith maes a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mawrth 2020.

Cafodd Cyswllt Ffermio ei adnewyddu, a chyflwynwyd nifer o ymyriadau newydd yn 2019. Comisiynodd y tîm Strategaeth felly werthusiad terfynol o'r cynllun yn 2022, i asesu effaith a gwerth am arian cyfnod y rhaglen, yn ogystal â gwerthuso'r gwaith darparu a chyflawni dros y cyfnod adnewyddu.

Mae sawl dull adolygu wedi'i ddefnyddio. Bydd adolygiad desg yn cynnwys dadansoddiad systematig o'r dogfennau sydd ar gael, adolygiad o'r Theori Newid a ddatblygwyd yn ystod y gwerthusiad canol tymor, dadansoddiad o ddata sylfaen yr arolwg o fuddiolwyr a data meincnodi, ac adolygiad o'r elfennau cyfathrebu. Cynhelir cyfweliadau/gweithdai gyda buddiolwyr, aelodau o'r Byrddau Cynghori a Chyflawni Strategol, swyddogion polisi Llywodraeth Cymru, arweinwyr y cynllun ac aelodau'r tîm cyflawni. Bydd arolwg ar-lein yn casglu barn y sectorau am y gwasanaethau a gynigir. Cynhelir cyfres o grwpiau ffocws ynghylch ymyriadau penodol a bydd astudiaethau achos yn cael eu datblygu.

Bydd y gwaith maes yn dechrau ym mis Chwefror 2023 a bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2023.

Dyfarnwyd y comisiwn i werthuso'r **Cynllun Rheoli Cynaliadwy** ddiwedd 2019 i gynnwys cerrig milltir adrodd blynyddol. Er mwyn asesu canlyniadau amgylcheddol y cynllun, mae'r gwerthusiad hwn yn dadansoddi data eilaidd o weithgarwch monitro a gwerthuso ar lefel prosiect. Mae'r gwerthusiad yn defnyddio'r data amgylcheddol a gesglir gan Raglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP). Defnyddir sawl dull adolygu gan gynnwys astudiaethau achos hydredol o brosiectau, arolygon o gyfranogwyr sy'n rhan o brosiectau cydweithredu a chyfweliadau â rhanddeiliaid.

Cawsom drwy'r cam cyntaf hwn o waith maes ddealltwriaeth o brosesau SMS. Roedd ail gam y gwaith maes yn 2021 yn cynnwys cyfweliadau â rhanddeiliaid, cyfweliadau am y prosiectau, cyfweliadau astudiaeth achos ac arolwg o'r we. Cyhoeddwyd yr adroddiad interim cyntaf ym mis Tachwedd 2021 a oedd yn cynnwys gwerthusiad proses a Theori Newid o'r cynllun.

Cyflwynwyd ail adroddiad blynyddol drafft ym mis Mehefin 2022 a oedd yn cynnwys arolwg o arweinwyr prosiectau. Roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg hwn yn is na'r targed sydd ei angen i allu gwneud casgliadau cadarn o'r data. Gweithiodd y tîm Strategaeth gyda'r

contractwyr i newid methodoleg werthuso'r arolwg, er mwyn cynyddu'r gyfradd ymateb ac amrywiaeth yr ymatebwyr (i gynnwys partneriaid prosiect a staff). Oherwydd yr oedi yn sgil pandemig Covid-19, estynnwyd y contract gwerthuso hyd at fis Mehefin 2023 i asesu canlyniadau ac effeithiau'r prosiectau oedd wedi'u gohirio.

Dechreuodd cam olaf y gwaith maes ym mis Tachwedd 2022 a chynhwysai gyfweliadau â sampl gynrychioliadol o fuddiolwyr (i adlewyrchu'r cyfnod cyllido a'r lleoliad) a rhanddeiliaid gan ganolbwyntio ar ganlyniadau, effeithiau ac astudiaethau achos gyda phrosiectau. Lansiwyd arolwg ar-lein wedi'i addasu ym mis Tachwedd 2022 a ddefnyddiai'r dull pelen eira. Caiff y canfyddiadau eu cyflwyno ddechrau gwanwyn 2023, gyda'r adroddiad gwerthuso terfynol i ddilyn yn fuan wedi hynny.

Gohiriwyd caffael gwerthusiad o'r **cynlluniau twristiaeth a gynigir drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig** (Cronfa Busnesau Bach a Micro - mesur 6.4, y Cynllun Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth - mesur 7.5, a'r Gronfa Ymgysylltu â Thwristiaeth Rhanbarthol a'r Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth - y ddau yn fesur 16.3) oherwydd Covid-19 a'r effaith ar y sector twristiaeth yn benodol. Adolygwyd y fanyleb, a chomisiynwyd gwerthusiad llai yng Ngwanwyn 2022, yn defnyddio sawl dull adolygu. Ym mis Medi-Hydref 2022 cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu â swyddogion Llywodraeth Cymru ac ymchwil desg, gan gynnwys dadansoddiad o bolisi, cynlluniau a dogfennau strategol perthnasol a data twristiaeth ac ymwelwyr. Cynhaliwyd gweithdy am y Theori Newid gyda rhanddeiliaid ym mis Tachwedd 2022, a arweiniodd at adroddiad ar y Theori Newid.

Hefyd yn 2022, cwblhawyd gwaith ymchwil a gwerthuso arall gan gynnwys:

- Dyfarnwyd y gwerthusiad o'r **cynlluniau Bwyd a gynigir drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig** (Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS) - Blaenoriaeth 3 (maes ffocws a) - Mesur 4.2; Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - Bwyd (RBISF) - Blaenoriaeth 6 (maes ffocws a), Mesur 6.4; Prosiect Helix, Cywain a Sgiliau Bwyd Cymru - Mesur 1.1) ym mis Rhagfyr 2021. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ym mis Ionawr 2022 a dechreuwyd ar y cam cwmpasu ym mis Chwefror 2022
- Comisiynwyd gwerthusiad o'r **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (TBIS)** ym mis Hydref 2021. Cynhaliwyd Gweithdy Cyd-gynhyrchu Theori Newid yn 2022, gyda chyfnod cwmpasu/cychwyn estynedig yn Haf 2022 gan fod yr haf yn amser gwell i holi busnesau coedwigaeth. Lansiwyd dau arolwg ar-lein, un ar gyfer buddiolwyr a'r llall ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus yn ystod yr Hydref gyda chynnal cyfweliadau â rhanddeiliaid ac â thimau cyflawni rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022. Trefnwyd cyflwyno'r canfyddiadau yn Ionawr 2023 a chyflwyno'r adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2023 ar gyfer ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2023.
- Cyflwynwyd adroddiad terfynol gwerthusiad LEADER yn Hydref 2022, i'w gyhoeddi ym mis Ionawr 2023.
- Dyfarnwyd y gwerthusiad o **Bartneriaeth Arloesi Ewrop (EIP)** ym mis Chwefror 2021. Dechreuodd y gwaith maes ym mis Rhagfyr 2021. Cyflwynwyd canfyddiadau

camau interim y gwaith maes ym mis Mai 2022. Cyflwynwyd adroddiad canol tymor ym mis Tachwedd 2022 (i'w gyhoeddi ym mis Ionawr 2023) a disgwylir cyflwyno'r canfyddiadau terfynol a'r adroddiad terfynol yng Ngwanwyn 2023.

- Comisiynwyd gwerthusiad o weithgareddau a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio, yn benodol dan fesurau 16.2, 16.4 a 16.8 ym mis Awst 2022. Cynhaliwyd yr adolygiad meta cyntaf ym mis Tachwedd 2022 a disgwylir cynnal yr ail ym mis Mawrth 2023.
- Mae gwerthusiadau yn cael eu paratoi ar hyn o bryd ar gyfer
    - Gwerthuso Glastir
    - Cwmpasu terfyn y rhaglen
    - Gwerthuso terfyn y rhaglen.


Mae pob adroddiad ymchwil a gwerthuso a gyhoeddwyd ar gael ar wefan Rhwydwaith Gwledig Cymru.

# 3. Cynnydd y Rhaglen

**Ers diwedd 2015 mae cyfanswm o €787.6 miliwn wedi'i dalu dan y Rhaglen, a chafodd cymaint â €136 miliwn o hyn ei dalu yn ystod 2022 yn unig. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid (€392.5 miliwn) a dalwyd yn ymwneud â gweithgareddau ar y tir (amaeth-amgylcheddol / coedwigaeth). Mae €544.3 miliwn o'r cyfanswm a dalwyd ers dechrau'r rhaglen wedi dod o gronfeydd Ewropeaidd. Daeth €273.8 miliwn o hwnnw o gyllid trosglwyddo Colofn I.**

Erbyn diwedd 2022, dyma oedd rhai o brif lwyddiannau'r Rhaglen:

- Cyfanswm o 98,396 o gyfranogwyr wedi cael hyfforddiant, dros gyfanswm o 61,625 o ddiwrnodau hyfforddi.
- 2,227.07 hectar o goetir newydd wedi'i greu
- Cyfanswm o 7,610 o ddaliadau wedi cael cymorth buddsoddi trwy'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy a'r Grant Busnes i Ffermydd.
- 656,050 o bobl wedi elwa ar wasanaethau, seilwaith a seilwaith TG gwell.
- 4,610 hectar wedi'u cynnal trwy Glastir - Rheoli Coetir a 1,203 hectar o goetir wedi'i ailstocio trwy Gynllun Adfer Coetir Glastir.
- 46 o brosiectau wedi'u hariannu trwy Bartneriaeth Arloesi Ewrop.



Ceir rhagor o wybodaeth am y cynlluniau unigol a gynhaliwyd trwy’r Rhaglen isod a thrwy ddilyn y dolenni gwe ar gyfer pob rhaglen.

# 4. Cynlluniau Cyfalaf Dynol a Chymdeithasol

**Cyswllt Ffermio sy’n gyfrifol am gontractau hyfforddi a chynghori (Trosglwyddo Gwybodaeth a’r Cynllun Cynghori Busnesau Gwledig). Mae Cyswllt Ffermio yn allweddol hefyd o ran cyflawni rhannau eraill y Rhaglen. Dyma’r brif fecanwaith ar gyfer darparu pecyn integredig sy’n cynnwys trosglwyddo gwybodaeth, cynghori a chymorth arloesi sy’n targedu cymunedau gwledig yng Nghymru.**

Hyd at 31 Rhagfyr 2022, mae Rhwydwaith Arddangos Cyswllt Ffermio wedi helpu 30 o ffermydd arddangos ac wedi recriwtio 214 o safleoedd Ffocws. Mae'r safleoedd yn hyrwyddo arloesedd a thechnoleg newydd sydd ar gael i ffermwyr a choedwigwyr ac yn llwyfan ymarferol i ddangos sut i roi’r dechnoleg/technegau newydd ar waith ar lefel fferm/coedwigaeth.

Hyd at 31 Rhagfyr 2022, mae 947 o ddigwyddiadau wedi'u cynnal ar y rhwydwaith arddangos gyda 14,088 yn bresennol.

Cliciwch yma i weld enghraifft o brosiect fferm arddangos.

Gwelwyd mewn treial ar safle arddangos Cyswllt Ffermio bod gwyndwn llysieuol ag ynddo lai o rywogaethau yn gwneud yn well na gwyndwn sydd wedi’i hau â chymysgedd mwy o 17 o rywogaethau. Mae Aled a Dylan Jones a'u tad, Emyr, wedi bod yn tyfu gwyndynnydd cyfoethog eu codlysiau a’u perlysiau i besgi ŵyn o'u diadell o 1,500 o famogiaid ar fferm Rhiwaedog, y Bala.

Mae'r treial hwn yn cadarnhau canlyniadau treialon eraill Cyswllt Ffermio ar wyndynnydd – symla’n y byd y cymysgedd, gorau’n y byd yw’r canlyniadau, meddai Mrs Duller wrth ffermwyr ar ddiwrnod agored Cyswllt Ffermio yn ddiweddar ar y fferm. “Yn y bôn, nid yw'r cymysgeddau mwyaf yn para cystal lle mae’r hinsawdd yn wlypach a’r pridd yn drymach, fel a welsom ar fferm Moor yn Sir Benfro, safle arddangos arall Cyswllt Ffermio, ac yn y prosiect EIP a edrychodd ar effaith gwyndynnydd llysieuol ar iechyd a pherfformiad ŵyn.

Bwriad menter arall dan Cyswllt Ffermio, sef ***Mentro/Venture***, yw helpu i gysylltu ffermwyr a pherchenogion tir sy’n dymuno camu’n ôl o’r diwydiant â newydd-ddyfodiaid sy’n chwilio am ffordd i mewn i fyd ffermio. Mae’r fenter yn helpu pobl ar y ddwy ochr i gael hyd i bartner busnes posibl. Mae pecyn integredig o hyfforddiant, mentora, cyngor arbenigol a chymorth busnes yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen ar gyfranogwyr i'w helpu i gyflawni eu nodau.

Hyd at 31 Rhagfyr 2022, roedd 353 wedi ymuno â’r fenter a 28 o barau posibl wedi’u nodi. Mae’r unigolion sydd wedi dod o hyd i bartneriaid busnes posibl yn gwneud cais am gyngor drwy’r gwasanaeth cynghori er mwyn derbyn rhagor o gymorth.

Mae 62 o fentrau ar y cyd newydd wedi’u sefydlu ers dechrau’r rhaglen.

Mae Cyswllt Ffermio yn cydnabod bod cyngor annibynnol, cyfrinachol a phwrpasol yn gallu bod yn fuddiol iawn. Trwy Wasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio, darperir cyngor â chymhorthdal i unigolion a grwpiau.

Mae'r Gwasanaeth Cynghori yn cael ei ddarparu gan wyth cwmni "arweiniol," gafodd eu dewis a’u cymeradwyo gan Cyswllt Ffermio.

Hyd at 31 Rhagfyr 2021 mae cyngor wedi’i roi a’i hawlio 8,598 gwaith i unigolion a grwpiau.

Mae Cyswllt Ffermio yn rhaglen fawr â phlatfform cyflawni eang sy’n darparu prosiectau o dan nifer o themâu i bob sector o’r diwydiant. Mae pob un o astudiaethau achos Cyswllt Ffermio sydd wedi’u cyhoeddi ar gael ar dudalen we ganlynol: Astudiaethau Achos | Cyswllt Ffermio.

Cefnogir gwasanaethau cynghori ar gyfer Glastir hefyd, ynghyd â gweithgareddau eraill y Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi, gan gynnwys prosiectau â chymorth grant ar gyfer mentrau sectoraidd dan arweiniad y diwydiant sy’n gweithredu o’r gwaelod i fyny ac sy’n targedu amaethyddiaeth, coedwigaeth, bwyd, BBaChau gwledig eraill a rheolwyr tir.

Nod **EIP Cymru** (Partneriaeth Arloesi Ewrop ar gyfer Cynhyrchiant a Chynaliadwyedd Amaethyddol) yw dod ag amrywiaeth o bobl a sefydliadau at ei gilydd i ddatblygu atebion arloesol, a fydd yn fuddiol i’r diwydiant ehangach yng Nghymru a’r UE. Mae EIP yn ddull newydd o gefnogi ymchwil ac arloesi ym maes amaethyddiaeth a choetiroedd yng Nghymru. Lansiwyd yr EIP yng Nghymru ym mis Ionawr 2016. Cafodd ceisiadau eu gwahodd gan Grwpiau â diddordeb mewn datrys problemau – a bydd ceisiadau o’r fath yn parhau i gael eu gwahodd yn y dyfodol. Ym mis Awst 2017, dyfarnwyd contract i Menter a Busnes redeg rhaglen EIP Cymru sy’n cynnwys rheoli a hwyluso pob cam, o’r ymholiad i ddyfarnu’r contract a rhoi’r prosiect llwyddiannus ar waith.

Mae cyfanswm o 46 o brosiectau wedi derbyn cyllid EIP Cymru, gan gyrraedd targed y contract. Mae’r 46 prosiect yn cynnwys 265 o grwpiau sy’n aelodau, gyda 229 ohonynt yn ffermwyr, 11 BBaCh, 11 NGO, 14 sefydliad ymchwil ac aelodau eraill o’r sector amaethyddol a choedwigaeth. Mae 40 grŵp wedi cael cymorth Brocer Arloesi. I weld y prosiectau sydd wedi’u cymeradwyo, ewch i wefan Cyswllt Ffermio.

Cynhaliodd chwe ffermwr godro sy'n aelodau o Gwmni Cydweithredol Llaeth Calon Wen brosiect 3 blynedd i weld a allai rhai ymyriadau syml hybu niferoedd pryfed peillio ar eu ffermydd. Roedd eu ffermydd organig eisoes yn darparu cynefinoedd addas ar gyfer

cacwn a pheillwyr eraill, ond roeddent am weld a allent wneud mwy trwy weithio'n agos gyda'r Bumblebee Conservation Trust a'r RSPB.  Diolch i'r prosiect, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cacwn (gwenyn bwm), hynny heb fawr o effaith ar gynhyrchiant y caeau. Creodd y Grŵp adnoddau defnyddiol hefyd ar gyfer ffermwyr eraill sydd â diddordeb mewn gwella rhannau o'u ffermydd er mwyn darparu cynefin da ar gyfer pryfed peillio.  Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn ar gael yma.




Mae chwe ffermwr bîff a defaid o rannau gwahanol o'r wlad wedi bod yn treialu'r defnydd o goleri tracio GPS i'w helpu i gadw golwg ar eu defaid a'u gwartheg sy'n pori mynyddoedd a thir cadwraeth. Yn 2020 a 2021, yn ystod y prif dymhorau pori, cafodd y coleri eu profi ar dri math o dir pori. Roedd gallu cael hyd i wartheg a defaid ar wahanol fathau o diroedd eang o fudd mawr i'r ffermwyr. Dangosodd y prosiect hefyd, trwy allu tracio da byw, mae modd rheoli'r gwasanaethau ecosystem yn well, a deall yn well sut i wella'r gwasanaethau ecosystem ar yr ucheldiroedd a thir gwlyb, gan ddefnyddio technoleg.

Hyd at 31 Rhagfyr 2022, roedd 43 o'r prosiectau wedi'u cwblhau, gydag adroddiad llawn ar bob un ohonynt wedi'i gyhoeddi ar wefan Cyswllt Ffermio. Bydd y tri phrosiect sy'n weddill wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2023. Mae pob adroddiad terfynol yn nodi amcanion, methodoleg, canfyddiadau a chasgliadau'r prosiect. Elfen hanfodol o raglen EIP Cymru yw bod canfyddiadau'r prosiect yn cael eu rhannu ag aelodau a busnesau cofrestredig Cyswllt Ffermio a thu hwnt.

Dechreuodd gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen a'i heffeithiau yng Nghymru yn 2021, gyda chyhoeddi'r adroddiad terfynol yng ngwanwyn 2023.  Bydd yn gwerthuso'r broses ymgysylltu ac ymgeisio, a pha mor effeithiol y mae canfyddiadau prosiectau'n cael eu rhannu.

Mae’r Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (‘C&SCD’) yn cefnogi prosiectau cydweithio, gyda’r gobaith o wneud i bethau newydd ddigwydd. Nod y cynllun yw newid trawsffurfiol, gan helpu i ddatblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd yn y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth a bwyd. Hyd yn hyn, mae’r C&SCD wedi cefnogi 378 o brosiectau cydweithio.

Cefnogir **Cywain** o dan fesur 16.4, a bydd y model cydweithredu hwn ar gyfer y gadwyn gyflenwi yn rhoi cymorth penodol i ficrofusnesau a BBaChau sy’n gweithredu yn y sector bwyd a diod yng Nghymru.

Y nod yw:

- Helpu’ch busnes i fod yn fwy cystadleuol, cynaliadwy ac arloesol
- Creu a chryfhau cysylltiadau rhwng eich busnes a’r gadwyn gyflenwi
- Cefnogi datblygiad a thwf eich busnes
- Manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i’ch busnes dyfu mewn ffordd broffidiol, gan eich helpu i greu swyddi o bosibl
- Rhoi cyfle i chi fanteisio ar offer, mentoriaid ac adnoddau a fydd yn eich helpu i gynyddu’ch busnes
- Cynnal a chryfhau enw da Cymru fel gwlad sy’n cynhyrchu bwyd a diod o ansawdd uchel
- Darparu map cynhyrchwyr bwyd a diod - #CefnogiLleolCefnogiCymru - Cynhyrchwyr o Gymru - Cywain (menterabusnes.cymru)

Dros ei oes, mae'r prosiect wedi gweithio â 254 o randdeiliaid, gyda 55 o ddaliadau yn cymryd rhan, ac wedi creu 40 o swyddi.

Cynigir cymorth ariannol trwy’r **Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy** (‘SMS’) i helpu i gychwyn a hwyluso prosiectau cydweithredol newydd ar raddfa tirwedd, gan gydlynu camau a chyfraniadau gan sawl parti er mwyn esgor ar fuddion parhaus ar draws ein cymunedau.  Mae’n cefnogi amrywiaeth o weithgareddau i reoli adnoddau naturiol yn well ac, wrth wneud hynny, mae’n cyfrannu at lesiant cymunedau gwledig.

Mae 50 prosiect ar waith ledled Cymru ar draws ardaloedd mawr o ucheldir. Maent yn cynnwys adfer grug a mawn, sawl prosiect rheoli coetir sy’n plannu coed newydd ac yn adfer coed, prosiectau dalgylch afonydd sy’n rheoli erydiad pridd a pherygl llifogydd ochr yn ochr â chefnogi cymunedau sydd wedi’u heffeithio gan lifogydd. Ceir prosiectau i helpu i ddiogelu’r arfordir, gan roi sylw i hamdden, cefnogi twristiaeth a manteision iechyd a llesiant byd natur ar gyfer ein cymunedau.

Un enghraifft yw prosiect Trwy'r Twyni Tywod: Dullliau Cynaliadwy o Reoli Tirwedd Arfordirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae’r prosiect hwn yn canolbwyntio ar dirweddau systemau twyni Cynffig a Merthyr Mawr a’r tiroedd rhyngddynt.

Nod y prosiect yw annog rheolwyr tir a rheolwyr y warchodfa a pherchenogion, defnyddwyr a buddiolwyr y tir i gydweithio â’i gilydd i helpu i reoli'r dirwedd arfordirol hon mewn ffordd gynaliadwy i wella bioamrywiaeth a sicrhau manteision i'r gymuned leol.

Bydd gwaith rheoli cynefinoedd yn helpu i wella gwydnwch ecosystem y twyni gyda'r sylw mwyaf yn ei cael ei roi i gynyddu'r fioamrywiaeth, gwella'r cysylltedd rhwng cynefinoedd a sicrhau sefydlogrwydd.  Bydd y prosiect yn gwella golwg a hygyrchedd yr ardal i ymwelwyr ac yn gwella eu profiad trwy osod arwyddion a hysbysebu llwybrau ac atyniadau'n well.  Nod y prosiect yw gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd y gall llwybrau cerdded a gynhelir yn dda a mannau gwyrdd o safon eu cynnig er iechyd a lles.

Bydd y prosiect hefyd yn cydweithio â busnesau lleol fel y clwb golff i'w helpu i fod yn fwy cynaliadwy ac i ennill eco-label GEO. Bydd gwaith hefyd yn cynnwys plannu a chynaeafu coetir ac archwilio'r potensial i ddefnyddio'r pren fel ffynhonnell tanwydd adnewyddadwy.

Ceir astudiaeth achos o'r prosiect hwn ar fideo yma. - https://youtu.be/Pik6G10Ab4c

# 5. Cynlluniau Buddsoddi

Mae'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG') yn gronfa buddsoddi cyfalaf i helpu i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol ffermydd. Cynigir grant o hyd at 40%. Erbyn diwedd 2022 roedd cyfanswm o 548 o geisiadau wedi'u cymeradwyo yn ystod 7 cylch. Mae'r Grant Busnes i Ffermydd ('FBG') yn darparu cymorth ariannol ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn offer a pheiriannau y nodwyd ymlaen llaw eu bod yn cynnig buddion clir a mesuradwy i fentrau fferm. I gael ymgeisio i'r Cynllun, rhaid i'r busnes fferm fod wedi mynychu digwyddiad 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol' gan Cyswllt Ffermio. Erbyn diwedd 2022 roedd 4,412 o geisiadau wedi'u derbyn dros naw rownd ymgeisio..

Mae'r **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren** (TBIS) yn cynnig cymorth ariannol i berchnogion coedwigoedd er mwyn gwella potensial coedwigaeth y coedwigoedd hynny. Mae 74 o brosiectau o dan ymbarél TBIS wedi'u cymeradwyo hyd yn hyn.

Diolch i gefnogaeth TBIS, sefydlwyd uned prosesu pren crwn newydd yng Nghoed Stradmore i brosesu pren meddal a chaled bach eu diamedr a phren sy'n rhy fawr. Prynwyd llif gwregys i wneud yn siwr bod cymaint o'r pren â phosibl yn cael ei ddefnyddio. Mae'r llif yn fwy hyblyg na'r hyn a gynigir yn y felin goed. Mae offer symudol wedi creu marchnad ar gyfer ffensiau pren caled a meddal a gynhyrchir o goetiroedd y Canolbarth a'r Gorllewin. Mae adeilad newydd yn cael ei godi ac offer trin pren wedi'u prynu.

Mae'r **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS)** yn cynnig cymorth ariannol ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn offer prosesu bwyd. Mae FBIS wedi bod yn gynllun llwyddiannus iawn hyd yn hyn, ac mae prosiectau cyfalaf newydd gwerth dros £187 miliwn wedi'u datblygu yng Nghymru.

**Edwards of Conwy - Ehangu Safle a Buddsoddi mewn Peiriannau –** Nod y prosiect FBIS hwn oedd:

- Gwerthu mwy o Fyrgyrs Cig Eidion PGI Cymreig a Selsig Porc Tractor Coch Edwards.
- Lansio cynnyrch cyw iâr Cymreig a chynnyrch heb glwten newydd wedi'u brandio.
- Datblygu cynnyrch newydd o dan labeli eraill a chynyddu capasiti.

Mae'r prosiect yn cynnwys: -

- Offer blaengar ar gyfer gweithgynhyrchu a phecynnu selsig
- Defnyddio'r offer ychwanegol i wella cyfleoedd i ddatblygu cynnyrch newydd a gwella prosesau.
- Ehangu'r safle cynhyrchu i greu llinellau cynhyrchu ychwanegol a mwy o le i drin a storio deunydd crai.
- Defnydd effeithiol o'r cyfleusterau presennol i ddarparu cyfleusterau staff ychwanegol a gofod swyddfa.

Mae'r **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (Bwyd)** yn rhoi help ariannol i brosesyddion a chynhyrchwyr bwyd a diod bach. Nod y cynllun yw rhoi help i hyd at 40 o

brosesyddion a chynhyrchwyr bwyd a diod micro a bach i fuddsoddi cyfalaf mewn prosiectau sy’n cynnig manteision clir a mesuradwy i’r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru.

Dechreuodd cyfnod ymgeisio arall ar gyfer y cynllun hwn yn 2021, fel rhan o gyfres o gynlluniau adfer ar ôl Covid 19. Dyfarnwyd contractau i 11 o brosiectau o dan y cynllun. Bydd y contractau hyn yn para tan ddiwedd y rhaglen yn 2023.

Mae’r **Gronfa Busnesau Micro a Bychan (MSBF)** yn gronfa fuddsoddi sy’n targedu prosiectau buddsoddi cyfalaf cymwys yn y sector twristiaeth yng Nghymru. Yn anffodus, oherwydd pandemig Covid, nid oedd modd cwblhau’r rhaglen yn ôl y disgwyl. Gohiriwyd y cynllun a phenderfynwyd ym mis Chwefror 2021 peidio â derbyn unrhyw achosion newydd. Cafodd y rhan fwyaf o’r prosiectau eu cwblhau cyn mis Mawrth 2021, ond roedd nifer fach (8) yn parhau’n weithredol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/2022 Llywodraeth Cymru, a disgwylir iddynt gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2022.

**4Seasons Holiday Resort Ltd –** Mae’r cynnig wedi derbyn arian y Gronfa Busnesau Micro a Bychan i greu Canolfan Wyliau 5 Seren fydd yn cynnwys cabanau gwyliau, carafanau statig a charafanau teithiol yn yr un lle. Yn ogystal, bydd pwll nofio, sba, campfa a chyfleusterau hamdden dan do/awyr agored a phum llyn newydd ar gyfer pysgota a chwaraeon dŵr. Adeiladwyd mwy na 3.5 km o lwybrau beicio a cherdded o fewn y parc 300 erw.

**Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (Anamaethyddol)**

Roedd hwn yn gynllun buddsoddi newydd i helpu’r economi i ymadfer ar ôl Covid-19, gan dalu costau buddsoddi cyfalaf a chefnogi prosiectau yng Nghymru sy'n cyfrannu at un neu fwy o'r canlynol:

a) arallgyfeirio'r economi wledig,

b) datblygu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynhyrchion naturiol,

c) gwneud busnesau gwledig yn fwy cynhyrchiol, effeithiol a chystadleuol.

Roedd grant o hyd at £50,000 ar gael i fentrau presennol a newydd nad oeddynt yn rhai amaethyddol.

Dros oes y rhaglen, cafwyd dau gyfnod ymgeisio. Dyfarnwyd contractau i bymtheg prosiect, gwerth £0.4m.

# 6. Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol

**Mae GLASTIR yn grŵp o gynlluniau cysylltiedig i helpu ffermwyr i reoli eu tir mewn ffordd gynaliadwy. Bwriad Glastir yw sicrhau canlyniadau ar lefel fferm, coedwig a thirwedd mewn modd cost effeithiol. Mae'n talu ffermwyr am ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol penodol i daclo'r newid yn yr hinsawdd, rheoli dŵr yn well a chynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth.**

**Caiff Glastir ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn helpu gyda rhai agweddau ar y cynllun.**

Mae Cynllun **Glastir Uwch** yn rhoi cymorth ariannol wedi'i dargedu i ffermwyr a rheolwyr tir i gyflawni'r amcanion hyn, gan gynnal gwelliannau amgylcheddol i gyflawni amrywiaeth o amcanion, gan gynnwys cynefinoedd, rhywogaethau, pridd a dŵr. Mae'r cynllun bellach ar gau i gontractau newydd. Dan **Gynllun Grantiau Bach Glastir**, mae hyd at £7,500 o gyllid ar gael i reolwyr tir a busnesau ffermio i gynnal gwaith cyfalaf dan dair thema: Carbon, Dŵr a Thirwedd a Phryfed Peillio. Mae dros 11,500 o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo o dan y cynllun.

Mae **Creu Coetir Glastir** (GWC) yn cefnogi rheolwyr tir sy'n dymuno creu coetir newydd a/neu reoli coetiroedd presennol. Mae GWC yn talu €941.18 (£800.00) fel cyfraniad at ffïoedd Cynllunydd Coetir Cofrestredig i ddatblygu plan creu coetir. Mae **cynllun Adfer Coetir Glastir (GWR)** o dan Fesur 8.4 (cefnogaeth i adfer difrod i goedwigoedd ar ôl tanau, trychinebau naturiol a digwyddiadau trychinebus) yn rhoi cymorth tuag at ailstocio coetiroedd llarwydd y mae'r pathogen ffwng Phytophthora ramorum wedi'u heintio neu'u bygwth. Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2022, roedd cyfanswm o 1,524.38ha o goetir wedi'u hailstocio, gyda 229 o fuddiolwyr yn cael eu cefnogi.

Caiff y **Cynllun Monitro Coedwigoedd a Rheoli Risg** ei redeg gan Cyfoeth Naturiol Cymru, i gefnogi gwaith monitro, lliniaru ac atal canlyniadau niweidiol plâu a chlefydau coed a choetir.

# 7. Cynlluniau Datblygu Lleol

**Mae LEADER yn gynllun datblygu lleol o dan arweiniad y gymuned. Ceir 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol ('LAG') yng Nghymru, yn cwmpasu wardiau cymwys mewn 21 o Awdurdodau Lleol. Mae gofyn i bob Grŵp Gweithredu Lleol lunio Strategaeth Datblygu Lleol ('LDS') sy'n disgrifio'r cyfleoedd a'r heriau yn eu hardal ac yn esbonio pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd er mwyn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd a rheoli rhai o'r heriau.**

Oherwydd Covid-19, aeth Llywodraeth Cymru ati i weithio gyda'r Grwpiau Gweithredu Lleol sy'n rhoi LEADER ar waith i ystyried sut y gallai egwyddorion LEADER helpu i ymateb i'r heriau ar lawr gwlad. Newidiodd pob LAG ei LDS er mwyn ymateb i'r heriau a oedd yn wynebu cymunedau gwledig o safbwynt ynysu, cyflenwadau bwyd a mynediad at wasanaethau.

Mae llawer o brosiectau LEADER wedi amlygu'r angen i addasu i ffyrdd o fyw a gweithio yn y dyfodol sy'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd o'n cwmpas.

Cafodd prosiect Partneriaeth Dyffryn Tywi - Dysgu oddi wrth y Tir ei roi ar waith gan LAG Sir Gaerfyrddin mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Dyffryn Tywi, o dan fesur 19.2 LEADER. Defnyddir GIS i greu platfform digidol o wybodaeth leol am adnoddau naturiol a diwylliannol. Yn ogystal â bod o fudd i ddarparwyr twristiaeth lleol sy'n rhan o'r bartneriaeth, bydd yn helpu busnesau twristiaeth preifat eraill yn ardal y prosiect hefyd.

Trwy fapio asedau naturiol a diwylliannol yn rhannau canol dyffryn Tywi, bydd y prosiect yn codi ymwybyddiaeth ac yn gwella dealltwriaeth a mwynhad o adnoddau naturiol a diwylliannol yr ardal, gan godi proffil Sir Gâr i gynulleidfaoedd hen a newydd. Bydd yn cefnogi cyfraniad gwasanaethau diwylliannol at iechyd a lles a hamdden a thwristiaeth gan gynyddu gweithgarwch awyr agored a nifer yr ymwelwyr sy'n dod i'r ardal ac yn aros ynddi i gefnogi datblygiad economaidd busnesau twristiaeth yr ardal.

I weld gwybodaeth am eich Grwpiau Gweithredu Lleol a chopïau o Strategaeth Datblygu Lleol pob ardal, ewch i dudalennau Rhwydwaith Gwledig Cymru. Mae enghreifftiau o brosiectau LEADER i'w gweld hefyd ar y map rhyngweithiol ar we-dudalen Rhwydwaith Gwledig Cymru, ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer pob Grŵp Gweithredu Lleol yng Nghymru.

Mae'r **Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF)** yn cynnig cymorth ariannol i grwpiau gweithredu lleol LEADER a sefydliadau cymunedol eraill. Mae'r gronfa hon bellach wedi cau ar gyfer ceisiadau newydd.

Mae Canolfan Mentergarwch Hafod Ceiri yn cael ei hariannu o dan is-fesur 7.4 yr RCDF sy'n neilltuo cymorth ariannol i sefydlu, gwella neu ehangu gwasanaethau sylfaenol lleol er lles pobl wledig, gan gynnwys hamdden a diwylliant a seilwaith cysylltiedig. Bwriad y prosiect yw datblygu caffi y caiff cynnyrch lleol o ansawdd uchel ei werthu ynddo. Bydd yn rhan o brosiect mwy fydd yn cynnwys Canolfan Hafod Ceiri fel hyb amlbwrpas a chynaliadwy i bentref Llithfaen a'r cylch trwy addasu capel y pentref.

# 8. Rhwydwaith Gwledig Cymru

**Rhan hanfodol o'r Rhaglen yw Rhwydwaith Gwledig Cymru ('WRN'). Mae Rhwydwaith Gwledig Cymru yn cefnogi rhwydweithio ac ymgysylltu ymhlith rhanddeiliaid, ynghyd â rhannu gwybodaeth, arferion gorau a phrofiad ar draws Cymru, y DU ac Ewrop. Mae'r Rhwydwaith yn cyfrannu'n helaeth at y Rhaglen trwy ychwanegu at werth y cyllid sydd ar gael, a hyrwyddo gweithgareddau a ariennir trwy gyfrwng y Rhaglen.**

Mae swyddogaeth WRNSU wedi parhau i esblygu dros y 12 mis diwethaf, ac mae'r wefan wedi cael ei datblygu'n gyson i gynnwys manylion 1,651 o brosiectau a thros 140 o astudiaethau achos.

## Digwyddiadau Rhwydwaith Gwledig Cymru

Cynhaliodd Rhwydwaith Gwledig Cymru ei ddigwyddiad diwedd tymor ar 9 a 10 Mehefin 2022 - Dathlu Cymru Wledig

Mae'n draddodiad gan Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru i nodi diwedd Rhaglen gyda Chynhadledd Diwedd Tymor ond y llynedd, penderfynodd yr Uned drefnu dathliad go iawn.

Nod y digwyddiad oedd dod â'r prosiectau oedd wedi cael eu hariannu yn fyw – gan arddangos straeon go iawn y buddiolwyr go iawn. Gwnaed hynny trwy gyfrwng digwyddiad bywiog a 'gweledol' gyda fideos a lluniau o brosiectau llwyddiannus.

Cafodd y cynadleddwyr weld a chlywed o lygad y ffynnon am brofiadau, heriau a llwyddiannau'r prosiectau hynny sydd wedi llwyddo diolch i'r cyllid maent wedi'i gael.

Roedd y digwyddiad yn cynnwys man arddangos prosiectau gyda lle neilltuol i bob thema, cyfres o drafodaethau thematig ar ffurf 'rhaglen sgyrsio', cyfweliadau â'r buddiolwyr, noson rhwydweithio bwyd a diod o Gymru, a 'Gwobrau Gwledig'.





**Gwobrau Gwledig Rhwydwaith Gwledig Cymru –**

Elfen allweddol o'r digwyddiad oedd cyflwyno Gwobrau Rhwydwaith Gwledig Cymru i nifer o brosiectau llwyddiannus sy'n ymgnawdoli ethos y rhaglen orau - prosiectau sydd wedi helpu i gynyddu amrywiaeth a gwytnwch mewn ffermio, coedwigaeth a bwyd, buddsoddi mewn mentrau gwyrdd, mynd i'r afael â thlodi, gyrru cystadleuaeth a chreu twf a swyddi cynaliadwy i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad Cymru.

Rhoddwyd gwobrau mewn pedwar categori -

- Bwyd a Thwristiaeth - **Prosiect Helix**
- Tirluniau, Natur a Choedwigaeth - Pennal 2050
- Arloesi - Caru Cymru
- Cymunedau - Dyfodol Cambrian

**Noson Rhwydweithio Blas ar Gymru**

**Derbyniad canapes a diodydd –** derbyniad gyda bwyd a diod o Gymru oedd yn gyfle i arddangos cynnyrch o Gymru a chyflwyno ffeithiau a chanlyniadau allweddol yr ystod o brosiectau'r Rhaglen Datblygu Gwledig sydd wedi cynorthwyo cwmnïau bwyd a diod yng Nghymru.

Roedd y digwyddiad yn cynnwys Gorsafoedd Blasu Cynnyrch, a Marchnad Cynhyrchwyr Bwyd.

**Trosolwg o'r Digwyddiad Dau Ddiwrnod**

- 360 o gynrychiolwyr dros 2 ddiwrnod
- 58 o Brosiectau Arddangos
- 129 o Gwmnïau Bwyd a Diod sydd wedi cael cymorth y Rhaglen Datblygu Gwledig.

- 6 Trafodaeth Panel thematig
- 10 o siaradwyr a chyfranwyr arbenigol yn y diwydiant.

Wrth i ni agosáu at ddiwedd cyfnod y rhaglen, mae swyddogaeth WRNSU wedi esblygu i roi mwy o bwyslais ar ddysgu o arfer da er mwyn cynyddu gwytnwch ac i ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd. Hefyd, trwy welliannau digidol, gellir cryfhau a datblygu cadwyni cyflenwi lleol a meithrin capasiti cymunedau trwy'r gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid a hyrwyddo prosiectau a ariennir gan y RhDG. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith i'w gweld ar dudalennau gwe WRN

Er mwyn bod mor gynhwysol â phosibl a chynyddu proffil y platfform gwybodaeth i bob aelod o gymdeithas, mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd â rhan bwysig i'w chwarae yn strategaeth gyfathrebu'r Rhaglen, a cheir presenoldeb ar Facebook a Twitter:

https://twitter.com/WalesRuralNet a https://www.facebook.com/walesruralnet

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Rhwydwaith Gwledig Cymru ar:

Rhwydwaith GwledigCymru | Llyw.cymru



# 9. Rhagor o wybodaeth

Ceir rhagor o wybodaeth am Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru (WGRC-RDP) 2014-2020 yn:

Grantiau a thaliadau gwledig | Is-bwnc | LLYW.CYMRU